# Adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar ei Fawrhydi Abertawe

## Ar gyfer cyfnod adrodd 1 Mehefin 2021 hyd 31 Hydref 2022

Cyhoeddwyd Ionawr 2024

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | **Tudalen** |
| --- | --- |
| 1. Rôl statudol y Bwrdd | 3 |
| 2. Disgrifiad o'r Sefydliad | 4 |
| 3. Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau Tystiolaeth 4 – 7** | |
| 4. Diogelwch | 7 |
| 5. Triniaeth deg a thrugarog | 10 |
| 6. Iechyd a lles | 18 |
| 7. Dilyniant ac ailsefydlu | 20 |
| **Gwaith** | |
| Ystadegau'r Bwrdd | 25 |
| Ceisiadau i'r Bwrdd | 25 |


**Cyhoeddir holl adroddiadau blynyddol y Bwrdd ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned y mae'r carchar wedi'i lleoli.

Dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- fodloni ei hun ynghylch triniaeth deg a thrugarog o'r rhai hynny a gedwir yn y ddalfa yn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n paratoi iddynt gael eu rhyddhau
- hysbysu'r Ysgrifennyd Gwladol neu unrhyw swyddog y dirprwywyd awdurdod iddo fel y barna'n briodol, o unrhyw bryderon sydd ganddo
- adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gystal y mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion a roddwyd arno a pha effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y rhai y mae'n eu dal.

Fel bod modd i'r Bwrdd ymgymryd â'r dyletswyddau hyn, mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a, hefyd, at gofnodiadau'r carchar.

Cytundeb hawliau dynol rhyngwladol yw Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Israddol Arall (OPCAT) ar gyfer cryfhau gwarchodaeth pobl a amddifadwyd o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod fod pobl o'r fath yn fregus a'i nod yw eu hatal rhag cael eu trin yn wael trwy sefydlu system o ymweliadau neu archwiliadau i'r holl leoedd cadw. Mae'n ofynnol gan OPCAT bod ystadau'n dynodi Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau cadw, er mwyn monitro y modd y caiff y rhai eu cadw eu trin a'r amodau sydd ar eu cyfer a gwneud argymhellion i atal triniaeth wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Adeiladwyd Carchar Ei Fawrhydi Abertawe ym 1861 ar gyfer 219 o garcharorion ac nid yw strwythur y bloc preswyl wedi newid er ei fod wedi'i foderneiddio a'i uwchraddio [1]. Agorwyd adain newydd, adain G, ym mis Medi 2015, gan ychwanegu 60 o leoedd ychwanegol. Cyn pandemig Covid-19, oherwydd nifer y carcharorion oedd yn gynyddol godi, golygwyd mai 475 oedd y capasiti gweithredol (nifer uchaf y carcharorion y gellid eu dal heb beryglu'n ddifrifol ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a gwaith cynnal y drefn gynlluniedig) yn Abertawe.Mae lle i ddau garchoror yn y rhan fwyaf o gelloedd. Fodd bynnag, mae yna ychydig o gelloedd â lle i dri ynghyd â nifer fechan o gelloedd sengl. Yn ystod pandemig Covid-19, gostyngwyd nifer y carcharorion yn sylweddol fel bod modd i fwy gael cell i'w hunain ac er mwyn cael hyblygrwydd yn y modd y gellid rheoli'n briodol achosion o Covid a amheuid neu rai gwirioneddol.

Ar hyn o bryd ceir rhaglen estynedig o ailwampio celloedd a seilwaith.

[1]Gwybodaeth gan reolwyr lleol yw ffigurau yn yr adroddiad hwn. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg yr adrodd ond efallai y byddant yn newid wedi iddynt gael eu dilysu ymhellach ac, felly, mae'n bosib na fyddant yn cyd-fynd ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn hwyrach ymlaen gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## 3. Pwyntiau allweddol

### 3.1 Prif ddyfarniadau

**Pa mor ddiogel yw'r carchar?**

- Yn sgil ei waith monitro, barn y Bwrdd oedd fod carchar Abertawe'n ddiogel.

**Pa mor deg a thrugarog gaiff y carcharion eu trin?**

- Yn sgil ei waith monitro, mae'r Bwrdd yn fodlon y câi'r rhan fwyaf o garcharorion, at ei gilydd, eu trin yn deg a thrugarog.
- Roedd y Bwrdd yn parhau'n bryderus ynghylch hyd yr amser yr oedd carcharion yn y ddalfa ac yn disgwyl ymddangos yn y llys.

**Pa mor dda y bodlonir iechyd a lles carcharorion?**

- Roedd darpariaeth iechyd meddwl yn parhau i beri pryder i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn sylweddoli y gwneir trefniadau i garchar Abertawe gael ei Wasanaeth Iechyd Meddwl ei hun ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf.

**Pa mor dda gaiff carcharorion eu symud ymlaen i ailsefydlu'n llwyddiannus?**

- Mae'r Carchar wedi cymryd camau breision wrth ddatblygu gweithdai a gweithgareddau i baratoi dynion i gael eu rhyddhau.
- Roedd y carchar yn parhau i gynorthwyo carcharorion gyda'u hailsefydlu.
- Fodd bynnag, mae'r Adran Addysg wedi gwella'n sylweddol anodwyd Llyfrgell Carchar Abertawe yn enghraifft o arfer da wrth weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, yn fewnol ac yn allanol.

### 3.3 Y prif fannau i'w datblygu

***I'rGWEINIDOG***

Mae'r Bwrdd yn bryderus ynghylch faint o gymorth y mae'r Swyddfa Gartref yn ei roi i fewnfudwyr a gaiff eu cadw ac, yn enwedig, felly, yr oedi wrth symud carcharorion tramor wedi iddynt gwblhau eu dedfryd (gweler paragraff 5.4.6). Mae'r Bwrdd yn gofyn i'r gweinidog godi'r mater gyda'r Swyddfa Gartref a rhoi iddo gopi o'r ymateb.

***I LYWODRAETH CYMRU***

Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn bryderus ynghylch carcharorion sy'n gadael y ddalfa heb lety i fynd iddo.Mae'n bosib y gellid dadwneud y gwaith da a wneir i baratoi carcharorion i gael eu rhyddhau a chael gwaith wedi iddynt gael eu rhyddhau oherwydd nad oes digon o letyau addas.

Mae'r Bwrdd yn parhau'n bryderus yngylch y gwasanaeth iechyd meddwl a gynigir i garcharorion yng Ngharchar Abertawe.

***I'R GWASANAETH CARCHARDAI***

Rydym yn ailategu ein neges i'r gwasanaeth carchardai o adroddiad blynyddol y llynedd, gan fod y problemau'n parhau.Mae'r Bwrdd wedi bod yn bryderus ynghylch nifer yr adegau y derbyniwyd carcharorion i Garchar Abertawe o'r 'tu allan i'r ardal' , p'un a ydynt wedi'u trosglwyddo o garchardai eraill yng Nghymru ynteu o garchardai yn Lloegr. Rydym yn llwyr sylweddoli fod y Gwasanaeth Carchardai dan bwysau'n

aml i roi llety i garcharorion ond byddem yn gofyn a fyddech yn ystyried gostwng nifer y carcharorion a ddaw o'r tu allan i'r ardal wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu lleoli.

### *I'R LLYWODRAETHWR*

Cymeradwywn y sefydliad yn ei ymdrechion i addysgu a hyfforddi carcharorion a'r symudiadau a wnaed i scrhau gwaith addas iddynt pan gânt eu rhyddhau.

Mae achosion o hysbysu'r Bwrdd o garcharorion a dderbynnir i'r Uned Gofal ac Ymwahanu ac adolygiadau Trefn neu ddisgyblaeth Dda (GOOD) yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi bod yn anghyson (gweler paragraff 5.2.6). Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw wedi bod yn y carchar am lawer o'r flwyddyn adrodd ond parhaodd y gofyn yn ystod gwaith monitro o bell a thynnwyd sylw i'r broblem hon yn ei adroddiad blaenorol.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod ymdrechion y carchar i ganfod siaradwyr o'r un iaith ar yr un adain lle bynnag y bo'n bosibl ac, yn enwedig felly, yn ystod y cyfnod hwn pan nad oes cyrsiau ffurfiol ESOL ar gael.Mae'r Bwrdd wedi nodi na wneir llawer o ddefnydd o wasanaeth dehongli 'thebigword' ar draws y carchar er y bu cynnydd yn y defnydd a wneir ohono ac mai'r Swyddogion Cydraddoldeb sy'n ei ddefnyddio'n bennaf (5.4.5.). Dymunai'r Bwrdd weld ystod ehangach o swyddogion e.e. gweithwyr allweddol yn defnyddio'r cyfleuster hwn er mwyn sicrhau y gall siaradwyr ieithoedd eraill gyfathrebu a deall yn effeithiol.

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a Chyflwyno

4.1.1 Trwy gydol cyfnod Covid, roedd niferoedd y carcharorion yn isel ond maent wedi dechrau codi nawr. Ymddengys bod y broses gyflwyno wedi cadw'n wastad â'r cynnydd hwn a rhoddir i garcharorion wybodaeth a chyfle i siarad â rhywun ar y tu mewn, carcharorion y gellir ymddiried ynddynt ac a all rannu eu profiad o fod yn y ddalfa, yn gynnar ar ôl cyrraedd.

4.1.2 Carcharorion sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i gefnogi cyfoedion yw Gwrandawyr. Er ei bod wedi bod yn anodd recriwtio Gwrandawyr, yn enwedig oherwydd bod carcharorion yn mynd a dod, mae gwaith hyfforddi dynion i'r rôl wedi bod yn llwyddiant. Mae'r gwrandawyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a daw cynrychiolydd i'r rhan gyntaf o'r Cyfarfod Diogelwch bob mis yn ogystal ag i gyfarfodydd eraill.

4.1.3 Caiff gwrandawyr eu galw allan at garcharorion yn rheolaidd. Y prif feysydd pryder yw dedfrydu, carcharorion am y tro cyntaf, arwahanrwydd, unigrwydd, gyda materion teuluol y pryder mwyaf. Mae'r rhan fwyaf o alwadau'n fyr hyd at 15 munud. Yn ôl y ffurflenni adborth a gaiff y Gwrandawyr, teimla'r carcharorion eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan y carchar.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Yn anffodus, bu dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd. (Digwyddodd un farwolaeth yn fuan ar ôl gadael y ddalfa). Hysbyswyd y Bwrdd Monitro Annibynnol ac ymchwiliodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i'r materion. Mae un adroddiad wedi'i gyhoeddi gan yr Ombwdsmon a threfniadaethau wedi'u rhoi yn eu lle yn dilyn y digwyddiad hwn i gynorthwyo dynion sy'n gadael carchar. Mae disgwyl byth am yr adroddiad arall.

4.2.2 Adroddodd y Gwrandawyr fod y dynion wedi'u hysgwyd yn dilyn y farwolaeth ddiwethaf yn y ddalfa. Adroddwyd ganddynt fod y gefnogaeth a gawsant gan staff y carchar yn dda ac ni awgrymwyd ganddynt unrhyw feysydd i'w gwella .

4.2.3 Ers gwneud i ffwrdd â mesurau covid mae newid wedi bod yn y ffigurau hunan-niweidio. Mae hyn hefyd wedi digwydd wrth ailgyflwyno'r drefn sylfaenol. Er bod y ffigurau wedi codi yn ystod y cyfnod adrodd, nifer fechan o ddynion sy'n hunan-niweidio ar sawl achlysur yw'r rhain. Hysbyswyd y Bwrdd y cofnodir pob digwyddiad difrifol ac ymchwilir iddo'n drwyadl.

4.2.4 Yn ôl y data, dengys fod nifer o ddigwyddiadau hunan-niweidio wedi dod o adain benodol lle roedd yno nifer o ddynion bregus. Câi hyn ei adolygu gan y carchar i ganfod a oedd tuedd i'w gweld. Roedd, hefyd, dau ddigwyddiad lle niweidiodd dau ddyn eu hunain wrth iddynt gael eu trosglwyddo. Awgryma'r data fod dynion 30-39 mlwydd oed yn fwy tebygol o hunan-niweidio ac y cânt eu dosbarthu yng ngrŵp ethnig W1. Ymddengys bod hyn yn gyson yn yr holl ddata am y cyfnod trosglwyddo.

4.2.4 Yn ystod y cyfnod adrodd bu cynnydd yn nifer yr achosion o Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) a agorwyd. Er na ymddengys bod unrhyw reswm wedi'i nodi am hyn, mae nifer fawr wedi'i hagor yn y Dderbynfa. Ymddengys fod y rhan fwyaf yn rhagofalus eu natur gyda nifer fawr yn cau mewn cyfnod o 24 awr. Agorwyd y rhan fwyaf ohonynt oherwydd ymddygiad neu sylwadau a nodwyd yn flaenorol yn ymwneud â hunan-niweidio/hunanladdiad. Caiff nifer y cyfryw achosion o ACCT ei monitro ond cred y carchar mai cynnydd mewn hyfforddiant i staff a'u hymwybyddiaeth ohono yw'r rheswm am y cynnydd.

4.2.5 Mae mentoriaid cymheiriaid gwarchodaeth fwy diogel wedi'u cyflwyno. Roedd hyn yn araf i'w weithredu ond bellach mae mentor ym mhob adain. Roedd y prif faes pryder yn ymwneud â dyled ond hefyd â'r ffaith nad oedd pecynnau tynnu sylw ar gael. Rhoddir sylw i hyn ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd mae'r broblem ynghylch dyled wedi gostwng ond bydd wastad yno.

## 4.3 Trais a gostwng trais, hunanynysu

4.3.1 Dengys y data bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau treisigar tuag at staff a charcharorion. Fodd bynnag, pan ddadansoddir data o flynyddoedd blaenorol ac ystyried nifer uwch y carcharorion, nid yw'r cynnydd yn anghymesur ac mae i'w ddisgwyl. Ni nodwyd unrhyw ddigwyddiadau yn ystod mis Gorffennaf. Fodd bynnag, roedd cynnydd o 100% ym mis Awst gyda'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau'n codi rhwng carcharorion. Ceir hefyd adolygiad o sut y nodir ymosodiadau ar staff gan na wahaniaethir rhwng difrifoldeb digwyddiadau. Un ymosodiad yr adroddwyd amdano oedd rhywun yn cael ei wthio gyda phlât plastig ac un arall oedd rhywyn yn cael ei frathu yn ystod digwyddiad Defnyddio Grym. Mae nifer o ddynion yn y carchar â sgorau rhagfynegi trais (VIPER) uchel. Mae hyn wedi cynyddu wrth i nifer y carcharorion gynyddu. Dynodwyd i'r sefydliad sgôr o 2.5 yn drothwy iddo ar gyfer cyfeiriad awtomatig am Gynllun Herio, Cefnogi ac Ymyrryd (CSIP). Mae data ac arolygon wedi awgrymu bod nifer uchel o ddigwyddiadau treisgar rhwng 8.30am ac 11am. Ni ellir dod o hyd i unrhyw gydberthynas rhwng hyn ac unrhyw weithgaredd arall megis Dyfarniadau neu Hatsh Feddygol sy'n digwydd yr adegau hyn.

4.3.2 Mae nifer y dynion ar Gynlluniau Herio, Cefnogi ac Ymyrryd (CSIP) wedi cynyddu. Mae hyfforddiant i staff wedi cynyddu yn y maes hwn ac ymddengys ei fod wedi cael effaith gadarnhaol. Agorir mwy o Gynlluniau CSIP bellach ar gyfer digwyddiadau di-drais megis bwlio a gwrthdaro. Yn aml, ceir mwy o gyfeiriadau na chynlluniau CSIP agored gan fod nifer o ddynion yn dod i'r carchar neu'n cael eu trosglwyddo gyda chynlluniau agored.

4.3.3 Mae Adroddiadau Deallusrwydd Merciwri (MIR) yn uchel. Ymchwilir i'r rhain a chânt un ai eu cau heb weithredu ymhellach arnynt neu eu cyfeirio'r at CSIP. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd hyfforddiant i staff yn y maes hwn ac mae hyn wedi arwain at adnabod digwyddiadau'n well a gwell adrodd ac unffurfiaeth ac ymdrin â materion yn fwy effeithlon. Er gwaethaf yr amrywiol adroddiadau a mwy o drais canfyddedig, dywedodd y carcharor mewn arolwg diweddar (o'r rhai a gymerodd ran) ei fod, at ei gilydd, yn teimlo fod y carchar yn lle diogel.

## 4.4 Carcharorion â bregusrwydd penodol

4.4.1 Nid yw'r data'n dangos unrhyw duedd benodol o ran diogelwch. Yr unig duedd oedd bod carcharorion tymor hir yn fwy tebygol o hunan-niweidio. Er nad yw hyn yn wir trwy gydol y cyfnod adrodd.

### 4.5 Defnyddio Grym

4.5.1. Mae cynnydd wedi bod yn y digwyddiadau lle defnyddir grym. Mae'r carchar yn adolygu pob digwyddiad yn wythnosol gydag amrywiol gamau'n cael eu cymryd, gan ddibynnu ar y digwyddiad. Nid yw'r defnydd a wnaed o gamerâu a wisgir ar y corff wedi bod cystal ag y dylai ac ategwyd hyn ledled y carchar. Mae hyfforddiant yn parhau i gael ei roi ar y maes hwn ac, adeg yr adroddiad, roedd system newydd ynghylch camerâu a wisgir ar y corff yn cael ei gosod oherwydd bod angen uwchraddio hen offer. Un o'r diffygion oedd nad oedd cofnod manwl o amser digwyddiad. Awgrymwyd nodi hyn ar ddechrau digwyddiad. Awgrymwyd, hefyd, gyflwyno gwaith papur gwell yn dilyn digwyddiad, pwynt a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn sgil digwyddiad diweddar.

4.5.2 Bydd gofalwyr iechyd yn cael eu hyfforddi ac yn mynd am hyfforddiant PAVA ac ymwybyddiaeth o gyffion bar caeth. Er bod yno PAVA (chwistrell pupur synthetig) nid yw wedi'i defnyddio mewn unrhyw ddigwyddiad yn ystod y cyfnod adrodd.

### 4.6 Camddefnyddio sylweddau

4.6.1 Ymddengys fod cyflwyno'r sganiwr corff yn Hydref 2020 wedi bod yn llwyddiant wrth ostwng y sylweddau anghyfreithlon a gludir i'r carchar. Yr unig broblem yw nad oes modd sicrhau pa mor lwyddiannus ydyw gan nad oes modd ei fesur i raddau fwy pan gaiff carcharorion eu rhyddhau yn ôl i blith y cyhoedd.

4.6.2 Ymddengys y bu cynnydd yn niferoedd y carcharorion â sylweddau anghyfreithlon yn cael eu canfod ar y sganiwr corff. Ymddengys bod hyn a'r cynnydd yn y defnydd a wneir o gŵn cyffuriau a gwyliadwraeth staff wedi codi nifer y canfyddiadau.

4.6.3 Gyda'r gostyngiad mewn cyffuriau anghyfreithlon yn cylchredeg yn y carchar, efallai y caiff hyn effaith ar iechyd meddwl carcharorion a bu galwad am fwy o gefnogaeth yn y maes hwn.

## 5. Triniaeth Deg a Thrugarog

### 5.1 Llety, Dillad, Bwyd

5.1.1 Ddiwedd y flwyddyn adrodd flaenorol, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar ailwampio celloedd. Roedd adeiniau D ac F wedi'u cwblhau ac adain B wedi'i dechrau. Rheolwyd y gwaith yn fewnol gyda thîm Amey yn gwneud y gwaith neu'n isgontractio rhannau ohono. Neilltuwyd cyllideb o £185k am y flwyddyn ariannol 22-23. Ym Mai 22, penderfynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder roi gwaith ailwampio celloedd dan eu rheolaeth nhw o brosiectau. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn, nid oedd dim cynnydd wedi'i wneud gan y Weinyddiaeth Amaeth o ran penodi rheolwr prosiect a dim o'r gyllideb a neilltuwyd wedi'i gwario. I bob pwrpas, mae'r penderfyniad hwn wedi peri i waith ailwampio celloedd ddod i ben rhwng Mai 22 a Hydref 22. Mae hyn yn eithriadol o bryderus, yn enwedig gan yr ymddengys nad oes capasiti i ddwyn y gyllideb a neilltuwyd ymlaen. Mae'r oedi hwn hefyd wedi cael sgil-effaith ar gyfleoedd gwaith penodol i garcharorion.

5.1.2 Parhau mae'r mynediad gwael i'r anabl ledled y carchar. Cwblhawyd cell ar Adain C sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, cymerodd y prosiect chwe wythnos hwn a gynhaliwyd gan Amey Projects, yn y pen draw, 29 wythnos i'w gwblhau. Yn fwyaf arwyddocaol, roedd y llawr wedi'i osod yn gogwyddo tuag at ddrws y gell yn hytrach nag at y gawod. Ymddengys nad oes cosb wedi'i chynnwys mewn contractau am y math hwn o oedi annerbyniol wrth gwblhau prosiectau.Yn amlwg nid yw cael un gell sy'n cydymffurfio â'r ddeddf mewn carchar o dros 400 o garcharorion yn ddigonol.

5.1.3 mae gwaith uwchraddio cawodydd wedi parhau ar nifer o adeiniau ac mae cawodydd newydd wedi'u gosod yng nghegin y carchar i'r carcharorion sy'n gweithio yno. Mae'r gwaith ailwampio hwn, yn cynnwys pwmpiau atgyfnerthu lle bo'u hangen, wedi gwella profiad carcharorion yn sylweddol. Nid oes cyfleuster i addasu'r gwres mewn celloedd unigol (system llif ac adlif) ac mae ffenestri rhai adeiniau, yn enwedig yn Adain C, yn hen barod i gael eu newid.

5.1.4 Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhawyd y prosiect 'ffôn mewn cell'. Erbyn hyn, mae ffôn ym mhob cell. Mae cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr carcharorion wedi rhoi adborth ar weithrediad y system newydd a chynorthwyo i sicrhau system deg a gweithredadwy ar gyfer gwneud galwadau ffôn. Mae carcharorion yn hapus gyda'r amseroedd y mae'r ffonau ar gael ac, onid oes gorchymynion Gwarchod y Cyhoedd yn eu lle, nid oes cyfyngiadau ar hyd galwadau os oes gan y carcharor gredyd.

5.1.5 O boblogaeth o dan dri chant ar adegau yn ystod cyfnodau clo Covid-19, mae'r carchar wedi cyrraedd pedwar cant a throsodd unwaith eto yn ystod y cyfnod hwn, gyda phwysau ar leoedd. Mae tîm amlddisgyblaethol wedi bod yn adolygu'n systemataidd asesiadau risg rhannu cell gyda niferoedd y 'risg uchel' wedi gostwng. Mae'r Bwrdd yn fodlon nad yw'n ymddangos fod gweithredu yn y modd hwn yn peryglu diogelwch carcharorion.

Mae golchdy'r carchar yn gweithio'n effeithiol ac yn rhoi cyflogaeth i garcharorion. Mae gan sawl adain ei pheiriannau golchi a sychu dillad ei hun hefyd. Caiff dillad gwely a citiau eu newid ar amlder derbyniol (newid cit bedair gwaith yr wythnos) ac ers gweithredu'r broses cyfnewid dillad yn 2022, mae modd i garcharorion ar remánd gyfnewid dillad pan gânt ymweliadau. Cafwyd ychydig o fân broblemau a rhaid

aildrefnu cyfnewidiadau - a hynny ar ddyddiau penodol yn unig ond ymddengys bellach fod y polisi/y broses yn gwreiddio'n dda.

5.1.7 Yn dilyn cyfyngiadau Covid -19, mae nifer lawn y carcharorion yn y gegin unwaith eto h.y. 25, gydag 14 yn y gwaith ar unrhyw un adeg. Mae yna nifer o wladolion tramor sy'n cymryd gwersi ESOL, felly, i bob pwrpas, rhan-amser ydynt. Mae'r gegin i'w gweld yn amgylchedd gweithio cadarnhaol, gydag aelodau'r Bwrdd yn ymweld bob wythnos. Mae carcharorion yn ymgymryd ag ystod eang o dasgau e.e. paratoi bwyd, coginio; glanhau; ymdrin â stoc ac ati. Mae carcharorion yn parhau i allu astudio tuag at gymhwyster lefel 2 mewn hylendid bwyd. Oherwydd oedi wrth benodi aseswr, golygwyd nad yw'r elusen 'Clink' wedu gallu dechrau prosiect a fyddai'n hyfforddi nifer benodol o ddynion a'u cynorthwyo i gael cyflogaeth pan gânt eu rhyddhau. Bu hefyd nifer o welliannau 'ffisegol' eleni hefyd e.e. man cawodydd newydd; lloriau newydd mewn rhai mannau, goleuadau gwell a'r lifftiau wedi'u hailwampio.

5.1.8 Nid yw'r cynnydd ym mhrisiau bwyd wedi cael effaith weladwy ar safon y bwyd a faint a brynir hyd yn hyn. I raddau helaeth, mae'r clustog o nifer gymharol isel y carcharorion ddechrau'r flwyddyn adrodd wedi bod o gymorth i warchod effeithiau prisiau'n cynyddu. Fodd bynnag, gyda'r boblogaeth yn ôl i'r hyn oedd cyn Covid-19, bydd goblygiadau cyllidebol parhaus i hyn. Enghraifft o hyn yw bod nwyddau a brynwyd ym Mehefin 2021 am £26k yn costio £29.6k ym Medi 2022. Parhau mae'r ganran uchaf o fwyd cartref a gynhyrchir.

5.1.9 Mae'r gegin yn parhau i gynnal arolygon bob chwe mis o'i garcharorion gan gymryd adborth o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr carcharorion. Mae ganddi fwydlenni â themau trwy gydol y flwyddyn (naw yn 2022) gan hysbysebu ar deledu'r celloedd. Mae'r system ar gyfer dewis bwyd am yr wythnos i'w gweld yn gweithio'n dda - gweithredir bwydlen pedair wythnos. Dosberthir ffurflenni ar ddydd Sul ac fe'u cesglir ar ddydd Mercher. Oni dychwelir ffurflenni, bydd dynion yn awtomatig yn cael y dewisiadau bwyd sydd ar ôl. Diwellir ar gyfer deiets arbennig (heb gyllideb ychwanegol) gan gynnwys lactos isel, fegan (bwydlen ar wahân bellach), di-glwten a seliag (mae gofalwyr iechyd yn gallu archebu rhai eitemau ar bresgripsiwn ar gyfer yr olaf).

5.1.10 Cafwyd gwelliant i ystafelloedd arlwyo adeiniau penodol ac mae safonau glendid i'w gweld yn dda a threfn dda yno amser bwyd. Fodd bynnag, mae'n dal yn anffodus ac yn annerbyniol bod dynion yn bwyta'u holl brydau mewn celloedd (chwe troedfedd wrth naw troedfedd) a rennir yn bennaf, gyda thoiled ynddynt. Er gwirio'n rheolaidd bod llenni 'gwedduster' yn eu lle, nid yw hyn yn tynnu oddi ar y broblem sylfaenol hon o lendid ac urddas.

5.1.11 Yn 2022, daethpwyd â'r bar/siop byrbrydau yn y ganolfan ymweld dan 'Gostwng Aildroseddu' I bob pwrpas, mae hyn wedi rhoi cyfleoedd i nifer fechan o garcharorion gael eu cyflogi yn y man hwn. Wedi'i rheoli gan Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal y Carchar, mae'r gegin, bellach, yn paratoi'r bwyd ac yn ei 'werthu' i'r cyfleuster. Er bod hyn wedi golygu mwy o waith i'r gegin, mae'r adborth gan garcharorion ac ymwelwyr wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol.

## 5.2 Ymwahanu

5.2.1 Mae gan yr Uned Gofal ac Ymwahanu (y CSU) bum cell ac mae gyfagos i Adain C lle mae llety 30 o garcharorion (ac ynddi gell wylio gyson) a gweithia staff

rhwng y ddwy. Mae yno gymhareb staff uwch yn yr adain er mwyn gwneud gwaith yr CSU a'r carcharorion mwy bregus/heriol sydd ar adain C. Mae aelodau'r Bwrdd wedi ymweld â charcharorion yn yr CSU yn gyson ac yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfathrebu/hysbysebiadau symud gwell i'r CSU gan swyddogion trwy gyfeiriad e-bost 'Swansea Board'. Mae aelodau'r Bwrdd wedi gallu monitro rhai achosion o symud gan ddefnyddio grym yn ogystal â symudiadau yn y celloedd oherwydd protestiadau budr. Yr adegau hyn, gwelwyd bod y grym a ddefnyddiwyd yn gymesur ac yn cael ei ddefnyddio'n broffesiynol. Gwelwyd a hwyluswyd, hefyd, ddat-gloi cell tri pherson wrth wisgo dillad diogelwch fel bod modd i aelodau'r Bwrdd siarad gyda'r carchar(orion) dan sylw. Roedd o leiaf un o'r carcharorion hynny'n disgwyl am leoliad iechyd meddwl diogelwch canolig gydag oedi annerbyniol.

5.2.2 Yn fras, roedd yr un nifer o ymwahaniadau awdurdodedig yn 2021 (247) a 2022 (237).Roedd 319 am y cyfnod adrodd Mehefin 2021 -Hydref 2022. Sganiau cyrff cadarnhaol oedd y rheswm am 55% o'r ymwahaniadau olaf (y rhan fwyaf yn y dderbynfa) gyda dynion yn cael eu dal dan Drefn neu Ddisgyblaeth Dda (GOOD) hyd oni cheid sgan corff negyddol. Gan mai pum cell Gofal ac Ymwahanu yn unig sydd, mae dynion wedi bod yn cael eu dal ar adain y dderbynfa dan amodau'r Uned Gofal ac Ymwahanu pan fo niferoedd wedi codi'n uwch na'r niferoedd yr oedd lle ar eu cyfer. Er bod cyflwyno'r sganiwr cyrff, heb amheuaeth, wedi canfod ac arafu llif y carcharorion a ddaw ag eitemau anghyfreithlon i'r ddalfa, mae'n aneglur pa fesurau sicrwydd ansawdd a goruchwylio sydd i'r broses.

5.2.3 Roedd 66 o ddynion yn cael eu dal yn yr Uned Gofal ac Ymwahanu ar ACCT yn ystod y cyfnod adrodd (18 mis) o'u cymharu â 28 yn 20/21 (12 mis). Mae hyn fymryn yn uwch na'r hyn a ddisgwylir o bosib ond gan fod cymaint o'r ymwahaniadau yn achosion noson gyntaf yn y ddalfa (sganiau cyrff cadarnhaol), mae'n bosib mai hyn sydd i'w gyfrif am ran o'r cynnydd. Roedd 31 o ddigwyddiadau o ddefnyddio grym yn yr Uned Gofal ac Ymwahanu, sy'n gymesur â'r cyfnod adrodd (12 mis) o 18. y cyfnod aros cyfartalog ar Uned Gofal ac Ymwahanu oedd fymryn dan chwe diwrnod gydag ychydig o gyfnodau hwy nodedig. Yn ystod y cyfnod hwn daliwyd dau ddyn am dros 42 o ddiyddau - roedd y ddau'n dymuno aros yn yr uned hon ac, ar y pryd, roedd lle iddynt yno.

5.2.4 Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd i ddyfarniadau, a gynhelir ar Adain C, lle bynnag y bo'n bosibl a chael gweld carcharorion cyn eu dyfarniad os yw'n ymarferol. Yn fisol, cynhelir cyfarfod safonau dyfarniadau a gadeirir gan y llywodraethwr ac, yn chwarterol, gyfarfod safoni dyfarniadau a rheoli goruchwiliadau. Mae'r Bwrdd yn croesawu'r olaf a'i rôl wrth sicrhau cysondeb a thegwch. Gwelir bod dyfarniadau'n cael eu cynnal yn unol â'r broses gywir. Gwelir bod dyfarniadau'n gymesur â throseddau a glywir gyda chanran fechan yn unig o ddyfarniadau'n arwain at garcharorion yn cael eu cadw yn eu cell. Fel enghraifft, rhwng Mehefin 2021 a Hydref 2021, cynhaliwyd 544 o ddyfarniadau gyda 26 ohonynt (4.78%) yn rhai o gadw yn y gell. Yn ystod yr un cyfnod, gwnaed 25 o gyfeiriadau ar gyfer erlyniadau'r Heddlu.

### 5.3 Perthynas rhwng Staff a Charcharor, Gweithwyr Allweddol

5.3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, ar gyfartaledd roedd rhwng 261 (Mehefin 2021) a 287 (Hydref 2022) o staff oedd yn gyfystyr â bod yn llawn amser. Parhaodd absenoldeb salwch yn gymharol isel gyda'r niferoedd ar eu huchaf yn Ionawr 2022 ac Ebrill 2022 ar 24.54 ac 20.91 diwrnod. Ar adegau, mae absenoldeb salwch wedi

cael effaith ar y system - yn fwy nodedig gyfnodau cysylltiedig - ond, ar y cyfan, ymddengys fod carcharorion yn derbyn hyn. Mae carchar Abertawe yn parhau i fod â gweithlu cymharol sefydlog gyda naw yn unig yn gadael yn ystod yr amser hwn. Mae'r tim arweinyddiaeth hefyd wedi bod yn sefydlog er bod y Llywodraethwr presennol yn gadael yn Ionawr 2023.

5.3.2. Mae'r gweithlu sefydlog hwn, ynghyd â'r raddfa aildroseddu genedlaethol uchel a chan fod Abertawe yn garchar lleol, yn cyfrannu at berthynas staff/carcharorion gan y bydd staff yn adnabod llawer o'r carcharorion ers dedfrydau blaenorol. Bydd ymweliadau â'r dderbynfa yn ategu'n aml y ffaith fod carcharorion a staff eisoes yn adnabod ei gilydd. At ei gilydd, mae amgylchedd da i'w weld ar y rhan fwyaf o adeiniau pan fo carcharorion allan o'u celloedd a swyddogion allan yn yr adeiniau. Mae'r Bwrdd wedi gweld rhai enghreifftiau da o dynnu tân allan o ddigwyddiad ac ymwneud â charcharorion anodd neu fregus mewn rhaiamgylchiadau heriol o bosib, a hynny yn yr Uned Gofal ac Ymwahanu ac yn yr adeiniau. Gallai defnyddio grym/ymosodiadau, sy'n isel mewn termau cymharol, dystio i hyn. Mae symudiadau i'r gwaith ac i addysg i'w gweld yn hamddenol ac â threfn dda iddynt.

5.3.1 Erbyn Medi 2021, roedd sesiynau gweithwyr allweddol i fyny'n ol i'w lefelau cyn Covid-19. Er bod rhyw gymaint o amrywiadau i'w gweld trwy'r cyfnod adrodd, neidiodd rhyngweithredoedd o 487 ym Mehefin 2021 i 700 yn Hydref 2022. Ar gyfartaledd, bydd gan weithiwr allweddol rhwng pump a chwe charcharor ac mae'r model yn disgwyl trafodaeth 45 munud yr wythnos. Nid yw hyn yn gyraeddadwy bob tro oherwydd materion megis salwch staff a galwadau sy'n anghyson â'i gilydd. Nid yw carcharorion gweithwyr allweddol yn seiliedig ar yr adain y maent yn gweithio ynddi. Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu.

5.3.2 Bydd Rheolwyr y Ddalfa'n sicrhau ansawdd sesiynau gweithwyr allweddol gyda'r uwch-swyddog Prawf yn cymryd sampl o 10% o'r sesiynau hynny. Mae modd i'r Bwrdd weld nodiadau sesiynau gweithwyr allweddol ar y system gyfrifiadurol fewnol a rhydd hyn y cyfle i weld a yw swyddogion yn gweithio yn y mannau allweddol ac yn cyfeirio ymlaen at reolwyr troseddau carchardai er enghraifft.Mae proses yn ei lle i garcharorion ofyn am gael newid Gweithiwr Allweddol, cais a gaiff ei ystyried gan reolwr yr uned rheoli troseddwyr. Mae rheolwr yr uned rheoli troseddau'n ceisio paru'n benodol ar sail yr iaith gyntaf lle bynnag y bo'n bosib a ffactorau eraill e.e. anawsterau dysgu gyda swyddogion sydd â phrofiad perthnasol.

5.3.3 Mae adroddiadau gweithwyr allweddol, fel y tystir gan nodiadau sesiynau, yn amrywio o ran ansawdd.Mae swyddogion yn cael hyfforddiant gweithiwr allweddol yn rhan o'u hyfforddiant cychwynnol ond mae modd cael rhagor o hyfforddiant (torrwyd yn ôl ar hyn yn sylweddol yn ystod Covid-19) Mae ganddynt hefyd fynediad at daenlen adnoddau/gwybodaeth sy'n cynnwys ystod o feysydd allweddol, megis Llety; Iechyd; Camddefnyddio Sylweddau; Dyled; Ailsefydlu ac ati er mwyn llywio sgyrsiau gyda charcharorion. Nid yw'r Bwrdd wedi derbyn unrhyw geisiadau ar weithio allweddol ac fe'i cyflwynir, gan fwyaf, i mewn i sgwrs â charcharorion gan aelodau'r Bwrdd e.e "Ydych chi'n gwybod pwy yw eich gweithiwr allweddol?" "Pa mor aml fyddwch chi'n cyfarfod?" yn hytrach na chael eu codi gan y carcharorion eu hunain. Ar hyn o bryd, nid yw'r Uned Rheoli Troseddwyr yn ceisio adborth gan garcharorion ar weithio allweddol.

5.3.4 Mae cyfarfodydd cynrychiolwyr y carcharorion gyda'r Llywodraethwr a'r swyddogion eraill wedi parhau bob wythnos trwy gydol y cyfnod hwn gan gyfrannu'n ddi-os at berthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Caiff cyfarfodydd eu cofnodi a gweithredoedd eu nodi gyda chynnydd yn cael ei adrodd yn ôl yr wythnos ganlynol. Nid oes dim nad oes modd ei drafod ac mae'n ffordd effeithiol o ymdrin â materion a allai, o bosib, ddatblygu i fod yn gwynion. Mae cadeirydd y Bwrdd yn monitro'r cyfarfod yn rheolaidd ac mae gan holl aelodau'r Bwrdd fynediad at y cofnodion.

## 5.4 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

5.4.1 Mae swyddog cydraddoldeb yn gweithio o'r uned gwarchodaeth fwy diogel ac yn rhannu ei amser rhwng dyletswyddau cydraddoldeb (60%) a gwarchodaeth fwy diogel ehangach (40%). Mae cyfarfodydd cydraddoldeb wedi parhau i gael eu cynnal yn fisol, gydag ystod o swyddogion yno dan gadeiryddiaeth aelod o'r tîm arweinyddiaeth. Mae arweinydd-reolwr (rheolwr neu lywodraethwr y carchar) i bob grŵp gwarchodedig. Mae gan bob aelod o'r Bwrdd faes diddordeb arbennig yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth a chaiff cyfarfodydd eu monitro'n rheolaidd. Cesglir nifer fawr o ddata a'u cyflwyno, yn cynnwys canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchodedig. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio grym, ymwahanu, dyfarniadau, ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau sy'n gwahaniaethu, Gwladolion Tramor, cyflogaeth, LHDTC+ ac ati. Gwelir y creffir yn feirniadol ar y data yn y cyfarfodydd hynny a sylw'n cael ei roi ifeysydd pryder. Cofnodir cyfarfodydd, nodir gweithredoedd ac adroddir ar gynnydd mewn cyfarfodydd dilynol.

5.4.2 Roedd cyfran y carcharorion o gefndir ethnig leiafrifol yn amrywio rhwng 12% ac 20% yn ystod y cyfnod adrodd - fymryn yn is ac uwch ar brydiau nag yn flaenorol (Ebrill 2020 – Mai 2021 15 – 17%). Mae canran poblogaeth carchar Abertawe oddeutu 8% Mae canran uwch y carcharorion o gefndir ethnig leiafrifol yn y carchar yn rhannol oherwydd nifer y gwladolion tramor a'r carcharorion a ddaw o'r tu allan i'r ardal. Fel enghraifft, ym Medi 2021, roedd 63 o garcharorion o gefndir ethnig leiafrifol, gyda 51 yn dod o'r tu allan i'r ardal. O'r rhain, roedd 28 yn wladolion tramor Wrth fonitro'n erbyn y categorïau a amlinellir yn 5.4.1. gwelwyd dim anghymesuredd sylweddol. Ceir amrywiaethau ond dim sy'n tynnu sylw at bryderon sylweddol. Er enghraifft, o ran proses y cynllun cymhelliant rhwng Tachwedd 2021 ac Ionawr 2022, roedd carcharorion o gefndir ethnig leiafrifol yn cyfrif am rhwng 15 a 17% o'r holl garcharorion. Roedd rhwng 14 ac 16% ar lefel safonol a rhwng 18 a 26% ar lefel uwch. Mae llywodraethwr a nodir yn arwain proses y cynllun cymhelliant ac mae'n cyfarfod â chynrychiolwyr carcharorion i drafod hyn.

5.4.3 Er bod casglu data'n hanfodol nid yw'n rhoi'r darlun cyfan. Mae'r carchar yn parhau i gynnal nifer sylweddol o fforymau a grwpiau ffocws ar gyfer grwpiau gwarchodedig gydag adborth/canlyniadau'n cael eu bwydo'n ôl i'r cyfarfodydd cydraddoldeb. Fel enghraifft, mewn fforwm 'Hil' yn Hydref 2021, cododd carcharorion o gefndir ethnig leiafrifol nifer o faterion, yn cynnwys:

- nid oedd staff yn deall arferion crefyddol, roedd anghysondeb i'w weld yn broblem o ran gwisgo penwisg crefyddol;
- Canfyddiad y cânt eu targedu gan staff ac, yn y pen draw, eu symud pe baent yn ymgynnull yn yr iard ymarfer;
- teimlad na chaiff eu hanghenion penodol eu hystyried. Rhoddwyd pecynnau derbyn yn enghraifft. Awgrymasant sicrhau bod pecynnau oedd yn rhoi sylw i

rai o'u hanghenion penodol nhw ar gael yn hytrach na phecynnau ysmygu a phecynnau bwyd;
- Teimlad nad oedd staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth/ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

Nodwyd materion penodol yn y cyfarfod cydraddoldeb dilynol e.e. arweiniad clir i staff ar wisgo'r durag; cymryd camau i hyfforddi staff ar ddiwylliant. Caiff cynrychiolwyr carcharorion ar gydraddoldeb eu hadnabod ledled y carchar trwy hyfforddiant rheolaidd - gall trosiant carcharorion ei gwneud yn anodd cynnal niferoedd ar brydiau. At hyn, mae'r swyddog cydraddoldeb yn mynd i gyfarfodydd wythnosol cynrhychiolwyr carcharorion (5.3.4.), gan geisio sicrhau y caiff carcharorion o gefndir ethnig leiafrifol eu cynrhychioli ar y grŵp hwnnw.

5.4.4 Nodwyd yn 5.1.2 nad oedd mynediad i'r anabl a phery hyn yn bryder. Dechreuodd ffisiotherapyddion ymweld yn rheolaidd yn 2022 - darpariaeth a gaiff groeso. Cynhelir clwb i rai dros eu 50 a daw nifer dda iddo. Os yw'r dynion yn gweithio, ni fyddant yn colli cyflog wrth fynd yno.

5.4.5 roedd nifer y gwladolion tramor yn amrywio hrwng 17 (Mai 2022) a 35 (Awst 2021) yn fisol, cyfartaledd o 24 dros y cyfnod adrodd. Gwladolion o Albania oedd mwyafrif y gwladolion tramor. Lle bo'n bosibl ac yn briodol, rhoddir dynion o'r un cenedligrwydd ar yr un adain a'u cyflogi yn yr un gweithdai. Er enghraifft, mae cyfran uchel o garcharorion o Albania yn y gegin. Cânt eu rhyddhau i fynd i ddosbarthiadau Saesneg; dosbarthiadau nad ydynt bellach wedi'u cyfyngu i gwrs chwe wythnos. Mae cynnydd wedi bod yn y defnydd a wneir o wasanaeth cyfieithu 'thebigword' ledled y carchar a, hefyd, defnyddir staff sy'n siarad ieithoedd eraill. Mae cyfarwyddyd rhanbarthol gan un man cyswllt gwladolion tramor bellach yn cymeradwyo defnyddio carcharorion eraill i gyfieithu onid yw'r pwnc yn sensitif. Mae gan y Bwrdd rai pryderon yngyhylch y mater olaf y tu draw i gyfleu gwybodaeth syml a chyfarwyddol. Bydd yn monitro a yw defnyddio 'thebigword' (er mai ychydig iawn o ddefnydd sy'n parhau i gael ei wneud ohono) yn gostwng hyn ymhellach.

5.4.6 Er y daeth ymweliadau gan gynrychiolydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn fwy rheolaidd ar ôl codi cyfyngiadau Covid-19, bellach dim ond dynion sydd wedi'u dedfrydu a gaiff eu gweld. Er bod problemau'n flaenorol ynghylch symud carcharorion tramor oedd wedi cwblhau eu dedfryd, os gall dynion gyflwyno cyfeiriad a gaiff ei gymeradwyo, cânt eu rhyddhau ar fechnïaeth yn aml. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd nid oedd yno ddynion a gedwir yn y tymor hir.

5.4.6 Mae nifer y Ffurflenni Adrodd ar Ddigwyddiadau sy'n gwahaniaethu (ffurflenni DIRF) a gyflwynir yn parhau'n isel - roedd 12 rhwng Ionawr a Hydref 2022. Mae'n bosib fod grwpiau ffocws, fforymau a chyfarfodydd wythnosol cynrhychiolwyr carcharorion yn nodi problemau ac yn rhoi sylw iddynt cyn iddynt droi'n gwynion/ffurflenni DIRF. Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r gwaith sicrhau ansawdd newydd a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek ac a weithredwyd yn 2022 ac mae'r carchar bellach wedi derbyn yr holl ffurflenni DIRF a gwblhawyd ac a gyflwynwyd. Bydd y llywodraethwr yn derbyn copi a thrafodir yr adborth yn y cyfarfodydd Cydraddoldeb. Yn arwynebol, dengys adborth o Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek ar nifer o ffurflenni DIRF, na ganiatawyd yn 2022, bod lle i wella yn y broses ymchwilio.

## 5.5 Ffydd a Chymorth Bugeiliol

5.5.1 mae gan gaplaniaid unigol yn y carchar ystod eang o ddyletswyddau o ran ffydd a chymorth bugeiliol. O'r 15 caplaniaeth bosibl (Bwdïaeth, Anglicanaidd, Seientaeth Gristnogol, yr Eglwys Rydd, Hindwaeth, Y Dyneiddwyr, Tystion Jehofa, Iddewiaeth, Mwslemiaeth, Uniongred, Paganiaeth, Crynwyr, Rastaffariaid, Pabyddion, Siciaid ac Ysbrydegwyr), dim ond pump a gynrchiolir yn benodol yng Ngharchar Abertawe: Anglicanaidd, Pabyddol, yr Eglwys Rydd, Mwslemiaeth a Phaganiaeth.Mae'r ddau gaplen llawn amser yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Rydd (37 awr yr wythnos), yr un Pabyddol (18 awr yr wythnos), yr un Mwslemaidd (15 awr yr wythnos) a'r un Paganaidd (3.5 awr yr wythnos).

5.5.2 Dengys data cydraddoldeb nad oes gan 60% o garcharorion ffydd ddatganedig.O'r 40% sy'n weddill, yn fras mae 31% yn Gristnogion mewn amryfal ffyrdd a Mwslemiaid yw'r 9% sy'n weddill. Trefnir gwasanaethau neu gyfleoedd i garcharorion weddïo/addoli oddi ar yr adain yng nghapel y carchar ac mae caplaniaid ar yr adeiniau i gwrdd â dynion ac i hysbysu'r cyfleoedd i weddïo/addoli. Mae caplaniaid yn gweithio gyda rhannau eraill o'r sefydliad mewn perthynas â gwyliau crefyddol e.e yr Imam yn cydweithio gyda'r gegin yng nhyswllt Ramadan/Eid.

5.5.3 Mae'r unig broblemau sydd wedi codi yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn i'w gweld yn ymwneud ag addoliad y Mwslemiad.Mae matiau gweddïo wedi bod ar gael trwy system archebu'r Ffreutur ond mae rhai carcharorion, nad ydynt yn Fwslemiaid, wedi bod yn eu prynu er mwyn bod yn fwy cysurus yn eu celloedd ond mae hyn yn erbyn rheolau'r carchar. Mae'r Imam yn trefnu i gael gwared â'r matiau hyn o'r Ffreutur neu i wyrio mai Mwslemiaid sydd yn eu prynu.Mae canfod lle addas i weddïo wedi bod yn broblem hefyd ond ymddengys bod hyn wedi'i ddatrys.Un broblem barhaus oedd sicrhau bod cawodydd ar gael cyn mynd i weddïo ar ddydd Gwener. Nid oedd staff yr adain bob tro'n sicrhau fod hyn yn bosibl.

## 5.6 Cynlluniau Cymhelliant

5.6.1 Yn ystod cyfyngiadau Covid-19, cydymffurfiodd y carchar â'r dull gweithredu cenedlaethol o roi carcharorion ar 'sylfaenol' yn unig yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. Wrth ddod allan o'r cyfryw gyfyngiadau, gweithredwyd y cynllun cymhelliant yn llwyr. Adroddir ar garcharorion o gefndir ethnig leiafrifol yn y cyfarfodydd cydraddoldeb misol, gan ddangos dim anghymesuredd. Mae nifer y dynion 'uwch' yn gymharol uchel ac mae hyn yn ddealladwy mewn carchar sydd â nifer gymharol isel o ddigwyddiadau o drais tuag at staff neu at garcharorion eraill ac sydd wedi gweithio'n galed i wella nifer y cyfleoedd am gyflogaeth.

5.6.2 Er mwyn bod yn deg, bydd llywodraethwr y gwasanaethau preswyl yn cwrdd â chynrychiolwyr yr adeiniau mewn fforwm misol i drafod y cynllun cymhelliant, lle gallant adrodd ar faterion a godwyd gan garcharorion ar eu hadeiniau. Cânt, hefyd, eu hannog i feddwl am syniadau ar sut i wneud y lefel 'uwch' yn fwy dymunol. Cyflwynwyd system lle gallai carcharorion uwch wario hyd at £100 ar eitem benodol (dim dillad) yn y cyfnod adrodd ac mae hyn ar gael bob chwe mis. Mae sawl cymhelliant arall, sef sesiynau ychwanegol yn y gampfa, ymweliadau ac arian gwario.

5.6.3 Mae'r broses ceisio am statws uwch yn dibynnu, i raddau, ar swyddogion yn ychwanegu nodiadau achos dan yr isgategori 'annog cymhelliant' ar y system gyfrifiadurol fewnol. Caiff staff eu hannog i nodi enghreifftiol cadarnhaol i ategu'r ceisiadau hyn. Caiff ceisiadau eu hadolygu gan reolwyr y carchar ac ymdrinnir yn

uniongyrchol â chwynion gan garcharorion fod staff yn rhoi rhybuddion sy'n arwain at golli statws, gan lywodraethwr y gwasanaethau preswyl.

### 5.7 Cwynion

5.7.1 Er mwyn cadw golwg ar yr holl gwynion a'r amseroedd ymateb perthnasol, mae'r Hwb Busnes yn cynhyrchu dadansoddiad cynhwysfawr, misol o'r holl gwynion. Mae'n cofnodi nifer y cwynion a geir o bob adain, yr hyn y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o, ethnigrwydd yr achwynwyr, meysydd ymateb y gŵyn a niferoeddd a meysydd yr ymatebion hwyr. Yna nodir tri phrif faes y cwynion ac yna gellir eu cymharu fesul mis.

5.7.2 Rhwng Mehefin 2021 a diwedd Hydref 2022 cafodd yr Hwb Busnes dros 700 o gwynion.Roedd dros 90% oddi wrth garcharorion gwyn (W9). Yn ystod y cyfnod, mae'r rhai oddi wrth garcharorion o gefndir ethnig leiafrifol (fel a nodir yn 5.4.2) yn amrywio rhwng 12 ac 20%.Aeth y rhan fwyaf o'r rhain i ddiogelwch a'r hwb busnes ac roeddynt yn ymwneud, gan fwyaf, â chyrffyw cyfyngu i'r cartref, eiddo, ffonau pin, cyllid a'r ffreutur.Roedd ymatebion hwyr i'r cwynion hyn yn ymwneud, gan fwyaf, â materion diogelwch, yr Uned Rheoli Troseddau, carcharorion o Adeiniau D ac F a materion allanol eraill.

5.7.3 Yn yr un cyfnod, derbyniodd y Bwrdd Monitro Annibynnol 72 o geisiadau (llythyrau i'r Bwrdd).Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag eiddo materion meddygol, symud i garchardai eraill, rhifau pin, swyddogion yn bwlio a'r ffreutur.

5.7.4 Mae eiddo'n ymddangos yn gyson ymhlith cwynion a cheisiadau. Mae hyn yn ynwneud yn aml ag eiddo 'coll' wrth drosglwyddo o garchardai eraill neu o'r llysoedd. Golyga'r nifer fwyaf o fagiau (cyfyngiadau pwysau) - a gyflwynwyd gan GeoAmey, bod raid i ddynion ddibynnu ar garchardai i anfon eiddo ychwanegol ymlaen pan gânt eu trosglwyddo.  Yn anffodus, fel arfer, dyma lle mae'r system yn torri.

5.7.5 O ran y carchar yn ymdrin â chwynion yn gyffredinol, gwnaed ymdrechion sylweddol yn y cyfnod hwn i sicrhau y gweinyddir y drefn gwynion a argymhellir yn effeithiol.Bu ychydig o achlysuron lle mae carcharor yn yr Uned Gofal ac Ymwahanu, cyn dyfarniad, wedi adrodd wrth aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol fod swyddog wedi'i gam-drin. Yn ystod y dyfarniad, lle mae'r carcharor yna'n adrodd ar y gamdriniaeth/ymosodiad honedig hwn, cyfeirir y mater i'r heddlu'n awtomatig. Ar yr achlysuron hynny, nid yw'r Bwrdd wedi cael gwybod am y canlyniad terfynol ac, mae'n bosibl, y gallai hwn fod yn faes y gellid rhoi sylw mwy effeithiol iddo.

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

6.1.1 Darperir gwasanaethau gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Darperir Gwasanaethau Deintyddol trwy gontract gyda "Time For Teeth" a'r Gwasanaethau Optometreg gan Ymddiriedolaeth Optegwyr Carchardai.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

6.2.1 Nid oes cyfleuster i gleifion yng Ngharchar Abertawe. Ychydig iawn o le sydd yn y carchar i ddarparu gofal iechyd ac, fel gwasanaethau eraill, ni chafodd yr adeilad ei ddylunio i hwyluso gofal iechyd. Mae dynion y mae angen triniaeth ysbyty arnynt yn mynd i ysbytai lleol. Bydd meddyg teulu'n dod i'r carchar yn ddyddiol.

6.2.2 Roedd carcharorion yn gallu trefnu apwyntiadau i gael gweld meddyg, deintydd ac optegydd. Roedd yr amseroedd disgwyl am apwyntiadau arferol gyda'r meddyg teulu a'r deintydd yr un ag yr oeddynt i'r cyhoedd. Roedd y gwasanaeth optometreg newydd yn rheoli'r pentwr cyfeiriadau blaenorol oedd wedi cronni ac yr adroddid arnynt.

6.2.3Er gwaethaf prinder staff, parhaodd y tîm gofal iechyd i fod â llwyyth gwaith mawr, gyda nifer fawr o garcharorion yn cymryd meddyginiaeth, y tîm yn sgrinio iechyd carcharorion wrth iddynt gyrraedd, ymwneud â dogfennau Asesu, Gofal yn y

Ddalfa a Gwaith Tîm ac ymateb i argyfyngau meddygol yn y carchar. Fodd bynnag,at ei gilydd, gwelid y tîm gofal iechyd yn parhau i roi gwasanaeth boddhaol gyda dynion yn cael gwasanaeth gofal iechyd amserol.

6.2.4. Ymddangosai y rheolid apwyntiadau ysbyty allanol yn dda, gyda darpariaeth ddigonol.

6.2.5 Roedd materion yn ymwneud â gofal iechyd yn parhau i fod yn rheswm arwyddocaol am geisiadau i'r Bwrdd. Fodd bynnag, cafodd y rhan fwyaf eu datrys yn sydyn gydag eglurhad o lle roedd pobl yn y gadwyn gyfeirio a'r hyn y gallent ei ddisgwyl. Parhaodd staff gofal iechyd i fod o gymorth wrth ddatrys problemau y deuai'r Bwrdd atynt.Fodd bynnag, y bwrdd iechyd lleol sy'n ymdrin â chwynion ac ni adroddir arnynt i'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Byddai'r Bwrdd yn gweld gwerth i'r wybodaeth hon.

6.2.6Gwelid bod gan y tîm gofal iechyd gysylltiadau rhagorol gyda'r gwasanaeth iechyd meddwl ag â nyrs allgymorth personau bregus y rhoddwyd llety iddynt a hefyd â'r meddygon ym meddygfa'r Stryd Fawr yn Abertawe, lle gallai carcharorion, nad oedd ganddynt gartref sefydlog, fynd atynt wedi iddynt gael eu rhyddhau.

6.2.7 Roedd modd, hefyd, ddefnyddio'r gwasanaeth meddygon y tu allan i oriau. Roedd arbenigwr ar iechyd rhywiol yn ymweld yn rheolaidd.

6.2.8 Mae gwasanaeth ffisiotherapi ar gontract preifat wedi'i gyflwyno ac mae'n llwyddiannus iawn. Yn anffodus, cwtogwyd y gwasanaeth oherwydd problemau talu'n unôl â'r contract. Rhoddir sylw i'r rhain.

## 6.3 Iechyd Meddwl

6.3.1 Roedd darparu gwasanaethau gofal iechyd meddwl yn parhau'n bryder mawr. Rhennir y tîm nyrsio iechyd meddwl â charchar Y Parc ac ychydig iawn o'r gwasanaeth yr oedd modd ei ddefnyddio.  Nid oedd digon o ddarpariaeth na gweithlu i gwrdd ag anghenion cleientiaid. Roedd anghenion unigolion â phroblemau iechyd meddwl cymhleth yn parhau heb eu bodloni.Aed ati i roi sylw i hyn a chafwyd cytundeb y byddai Abertawe'n cael ei chyfran ei hun o'r gwasanaeth presennol a phennwyd rhaniad y lefelau staffio. Yn anffodus, nid yw hyn wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

6.3.2Roedd gan y carchar un nyrs iechyd meddwl mewngymorth oedd yn rhoi'r cyswllt rhwng gwasanaethau seiciatryddol a seiciatryddol fforensig i'r rhai hynny yr oedd angen y gwasanaeth hwn arnynt. Byddai ymweliadau gan seiciatryddion fforensig yn cael eu trefnu ganddynt hwy. Roedd y gwasanaeth argyfwng yn gweithredu saith niwrnod yr wythnos Âi'r tîm i'r holl adolygiadau o achosion o Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm, byddent yn gweld unrhyw garcharor oedd mewn argyfwng ac yn cynnig ymyraethau priodol.

6.3.3Roedd nyrs allgymorth y digartref iechyd meddwl a'r personau bregus y rhoddwyd llety iddynt yn aelod o Fwrdd partneriaeth iechyd y carchar. Cysylltai staff gofal iechyd â'r tîm digartref cyn rhyddhau carcharorion, yn eu hysbysu o'u triniaethau a'u meddyginiaethau. Profodd hwn i fod yn gam cadarnhaol yn y rhan fwyaf o achosion.

## 6.4 Gofal Cymdeithasol

6.4.1. Roedd rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn aelodau o'r panel diogelu. Adolygwyd a diwygiwyd polisïau fel bo'n briodol, trefnwyd hyfforddiant i staff a thrafodwyd cyfeiriadau cyfredol. Ymdrechai'r sefydliad i sicrhau ei fod yn gyson wrth ofalu am y rhai a fu'n destun ymyrraeth y gwasanaethau cymdeithasol yn unol ag ymrwymiadau cyfreithiol cyfredol. Adolygai'r panel diogelu'r holl gyfeiriadau'n chwarterol a chadwyd lygad ar hynt cyfeiriadau.

Gallai sgrinio yn y dderbynfa dynnu sylw at broblemau ac yna gellid eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Ystyrrid cyfeirio carcharorion hŷn yn awtomatig.

Adolygai casglwyr bryderon a'u dadansoddi'n ddyddiol cyn iddynt gael eu cyfeirio at yr asiantaeth fwyaf priodol.

6.4.4. Roedd taflenni diogelu'n parhau i gael eu dosbarthu.Roedd hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant yn parhau i fod ar gael ar e-ddysgu a châi staff gyflwyniadau.

### 6.5 Ymarfer, trefn

6.5.1 Wedi codi cyfyngiadau Covid-19 a diwedd y drefn gyfyngiadau, dychwelodd ymarfer i'w drefn arferol o fewn safonau cenedlaethol.

### 6.6 Ailsefydlu yn sgil alcohol a chyffuriau

6.6.1Darparwyd gwasanaeth camddefnyddio integredig gan Dyfodol a gyflawnai ymyraethau seicogymdeithasol a chan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a ddarparai wasanaethau clinigol. Ategwyd strategaeth a chynllun gweithredu gyda chyfarfodydd lleol rheolaidd. Câi carcharorion oedd newydd gyrraedd ac oedd â phroblemau alcohol a chyffuriau eu hadnabod yn brydlon a'u hasaesu a'u cefnogi gan y tîm gofal iechyd sylfaenol.Cynhaliwyd cyfarfodydd yn fisol.

6.6.2 Profodd cyflwyno'r archwiliadau pelydr-X ar gyfer carcharorion wrth ddod i mewn i'r Carchar a, hefyd, wrth ddychwelyd o'r llys yn rhwystr rhag cuddio cyffuriau yn y carchar.

6.6.2 Roeddy rhaglen adfer 12-cam ar ôl bod yn gaeth i sylweddau wedi'i gyflwyno ac wedi cael derbyniad da gydag adborth cadarnhaol ar y canlyniadau a brofwyd,Cynllunio cyn-rhyddhau, yn canolbwyntio ar atal llithro, lleihau niweidio a pharhau â thriniaeth os oes gofyn, gan gyfeirio at wasanaethau cymunedol.

## 7. Dilyniant ac Ailsefydlu

### 7.1 Addysg, llyfrgell

7.1.1 Gwnaed ymdrechion mawr yn ystod cyfnodau clo Covid-19 i sicrhau y gallai dynion gael addysg, gyda 64% o'r rhai a ymatebodd i Arolwg y Bwrdd Monitro Annibynnol (Gwanwyn 2021) yn cytuno eu bod wedi gallu parhau gyda'u cwrs addysgol.

7.1.2 Ddechrau 2022, roedd nifer o swyddi gweigion yng ngwasanaeth dysgu a sgiliau Carchar Abertawe, 5 allan o gyfanswm o 9 staff dysgu, yn ogystal â staff gweinyddol. Cafodd hyn effaith sylweddol ar gyflwyno dosbarthiadau, gyda rhai yn gorfod cael eu canslo oherwydd nad oedd digon o staff i gymryd y gwersi. Roedd yr holl swyddi gweigion yn y meysydd Sgiliau Hanfodol Cymru a chyflogadwyedd a pharodd hyn yn broblem am ddau chwarter cyntaf y flwyddyn.

7.1.3 Parhau'n gryf trwy gydol y cyfnod adrodd wnaeth gwaith cyflwyno rhaglenni nad oeddynt yn rhai galwedigaethol. Mae'r rhaglen allgymorth lles wedi parhau'n rhan annatod o'r cwricwlwm. Mae hi'n boblogaidd gyda'r carcharorion a chofnodwyd bod 1560 wedi dechrau ar y rhaglen. Mae'r rhaglen wedi'i hadolygu i sicrhau ei bod yn rhoi yr hyn y mae ar y dynion ei eisiau/angen.Mae'n diwallu ar gyfer y carcharorion hynny y mae'n anodd eu cyrraedd ac sy'n fregus ac sydd, o bosibl, yn teimlo na allant fynd i feysydd darparu a gwaith Dysgu a Sgiliau na chael mynediad atynt **.**

7.1.4 Mae'r fformat dysgu yn y gell sydd ar gael i'r holl ddynion yng Ngharchar Abertawe yn cynnig ystod o raglenni achrededig o lefel mynediad 1 i lefel 2. I'r rhai mwy abl, mae llwybrau mwy heriol yn dechrau ar lefel 2 a mynd i lefel 4 ac yna ymlaen i ddysgu o bell. Fodd bynnag, mae proffil y carchar yn cyfyngu ar math y cyrsiau addysgol sydd ar gael yn fewnol.

7.1.5 Mae elusen, Changing Tunes, yn cyflwyno sesiynau cerdd rhyngweithiol ddwywaith yr wythnos. Gwneir darpariaeth arbennig i ddynion ar Adain C gyda sesiynau'n cael eu cyflwyno ar yr adain. Cyflwynir dosbarthiadau arlunio wyythnosol a sesiynau cefnogi allgymorth boreol yn y ganolfan les.

7.1.6 Fel rhan o'r rhaglen ymgyfarwyddo, mae pob dysgwr yn cwblhau ei 'gynllun' ar y campws rhithwir.Mae aelodau o staff neu fentoriaid yn cynorthwyo i adnabod nodau tymor byr a thymor hir a llwybrau posibl ar gyfer cyflogaeth tra bo carcharorion yn y ddalfa yn ogystal â nodau tymor hir ar gyfer eu rhyddhau.

7.1.7 cynhaliwyd adolygiad o'r cwricwlwm gyda chefnogaeth aelodau o'r Tîm Rhanbarthol yn haf 2022. Roedd wedi'i seilio ar y wybodaeth am y farchnad lafur ac ar wybodaeth a gafwyd gan gyflogwyr trwy'r hwb cyflogaeth. Cafodd sawl menter ei chanmol, yr hwb cyflogaeth, y gwaith a gâi ei wneud yn y ganolfan les, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, defnyddio gliniaduron i gael cymwysterau. Gwnaed sawl argymhelliad e.e. dylid defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r proffilydd DoIT (arf sgrinio ac asesu ar gyfer niwroamrywiaeth) i lywio'r cyfan o daith y carcharor ledledy carchar. Dylid rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn y broses ymgyfarwyddo er mwyn sicrhau bod y dewisiadau a wneir a'r nodau a osodir yn rhai realistig a heriol. Mae cynllun datblygu ansawdd deinamig yn ei le i roi sylw i'r argymhellion.

7.1.8 Mae nifer dda yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell a ddarperir gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, a hynny'n garcharorion a staff.Mae dynion yn y gweithdy bellach yn gallu defnyddio'r llyfrgell.

7.1.9 Yn ystod Covid-19, rhoddwyd 70 bocs o lyfrau a dynnwyd oddi ar y silffoedd yn rhodd i'r carchar gan Wasanaeth Llyfrgell Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Lleolwyd y rhain ar yr adeiniau. Sefydlwyd gwasanaeth cais a chasglu yn y carchar ac mae hyn wedi bod mor llwyddiannus fel ei fod wedi parhau wedi Covid-19. Hwyluswyd y gwasanaeth cais gan staff dysgu oedd yn gwneud gwaith allgymorth. Dychwelwyd gwaith cwrs i diwtoriaid trwy'r bocsys llyfrau.

7.1.10 Yn ystod y cyfnod 2021-2022 benthycwyd 6,934 o lyfrau/DVDs ac roedd 658 o ymweliadau â'r llyfrgell.

7.1.11 Mae nifer dda o lyfrau yn y llyfrgell sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae gweithgareddau penodol i gefnogi digwyddiadau yn y calendr, megis Mis Hanes Pobl Ddu ac LHDTCRhA.

7.1.12 darperir adnoddau mewn nifer o ieithoedd, gan ddibynnu ar y carcharorion. Y llyfrgellwyr sy'n gyfrifol am brynu llyfrau. Caiff y dynion eu hyfforddi'n gynorthwywyr llyfrgell gan gwblhau cyrsiau achrededig Agored Cymru mewn gwasanaeth cwsmer.

7.1.13 Mae'r Shannon Trust yn gweithio o'r llyfrgell ac mae detholiad rhagorol o lyfrau i egin-ddarllenwyr. Fel arfer mae saith dysgwr a chwe/saith mentor yn y grŵp.

7.1.14 Mae Llyfrgell Carchar Abertawe wedi'i hadnabod yn enghraifft o arfer gorau mewn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, a hynny'n fewnol ac yn allanol. Yn 2023, mae'r llyfrgell yn dathlu 75$^{mlynedd}$ o wasanaeth.

**7.2 Gweithdai Hyfforddiant Galwedigaethol**

7.2.1 Cafodd cyfyngiadau Covid-19 effaith ar weithgaredd pwrpasol gyda gwasanaethau hanfodol yn unig yn weithredol; y golchdy, y gegin, rheoli gwastraff, glanhawyr yr adeiniau. Un gweithdy, teilwra, arhosodd yn weithredol gyda sgrybs yn cael eu cynhyrchu i staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd glanhawyr, mentoriaid cymheiriaid, mentoriaid gwarchodaeth fwy diogel a mentoriaid carcharorion tymor hir yn gweithio'n unol â phrotocolau Covid-19.

7.2.2 Ailddechreuodd gweithgareddau arferol cyn gynted ag yr oedd yn briodol, gyda'r holl weithdai'n gweithredu fel cynt.
Mae 386 o leoedd ar gael i weithwyr llawn amser. Mae saith o weithwyr rhan-amser Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys gwaith ar adeiniau, megis mentor carcharorion tymor hir, mentor dyfodol, mentor gwarchodaeth fwy diogel a'r cynrychiolydd gostwng aildroseddu.

**Dilyniant a Rheoli Troseddau**

7.3.1 Yn ystod Covid-19, cynhaliwyd gwrandawiadau dros y ffôn yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, sicrhawyd bod gliniaduron ar gael gyda'r Rheolwr Troseddau Carchardai a'r carcharor yn rhannu sgrîn. Roedd hi'n bell o fod yn ddelfrydol. Prynwyd sgrîn fawr a bellach cynhelir gwrandawiadau yn un o'r ystafelloedd cynhadledda. Mae cynrychiolwyr cyfreithiol, swyddogion prawf a Rheolwyr Troseddau Carchardai yn cyfarfod yn y carchar ac yn cysylltu â'r Bwrdd Parôl. Mae hyn yn profi i fod yn ffordd effeithiol o weithio ac mae'r adborth gan y dynion a'r staff yn dda.

7.3.2 Yn sgil y cynllun rhyddhau'n gynnar a gyflwynwyd yn ystod cyfnod clo Covid-19, rhyddhawyd un carcharor yn gynnar.

7.3.3 Mae'r peilot gwybodaeth am Fechnïaeth a ddechreuodd ym Medi 2022 wedi'i ymestyn a dengys arwyddion cynnar ei fod yn gweithio'n dda.

## 7.4 Cyswllt â Theuluoedd

7.4.1 Yn ystod Covid-19 roedd galwadau fideo cymdeithasol yn boblogaidd. Fodd bynnag, 59% yn unig o'r rhai a ymatebodd i Arolwg y Bwrdd Monitro Annibynnol (Gwanwyn 2021) a gytunodd ei bod yn hawdd eu harchebu

7.4.2 O'r Arolwg o ddynion a gynhaliwyd Ebrill 2021, cytunodd 73% o ddynion gyda'r datganiad, 'mae'n hawdd gwneud galwad ffon bob dydd.'

7.4.3 Nid yw'r grŵp babanod wedi bod mor llwyddiannus ag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae cynlluniau ar y gweill i ymestyn gwahoddiad i neiniau a theidiau yn 2023.

7.4.4 Roedd teuluoedd â phlant i fyny at 11 mlwydd oed yn gallu cymryd rhan yn y dyddiau i deuluoedd a drefnwyd trwy gydol y flwyddyn. Neilltuwyd diwrnod ar gyfer plant hŷn a threfnwyd dau ddiwrnod yn benodol ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

7.4.5 Mae ymweliadau distaw 1 i 1 hefyd ar gael. Bydd rheolwr gwarchodol yn goruchwilio'r rhain ym man disgwyl a chwilio PACT. Mae adborth a gafwyd hyd yn hyn yn eithriadol o gadarnhaol.

7.4.6 Mae'r tîm yn adolygu ac yn addasu eu prosesau chwilio'n rheolaidd i wneud y broses yn haws i blant ag anghenion penodol.

7.4.7 Cyflwynwyd cynllun grŵp ymwelwyr gwirfoddol Trecelyn yn 2022. Anfonir cardiau pen blwydd at y rhai hynny sy'n dymuno cael un.Ni chafodd 97 o ddynion unrhyw ymweliadau ym mis Rhagfyr ac mae camau ar y gweill i roi sylw i hyn trwy'r cynllun Ymweld â'r Carchar yn Swyddogol a thrwy Gymdeithas y Carchar.

7.4.8 Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng PACT, Teuluoedd/Cyfeillion Carcharorion a'r tîm cyswllt â theuluoedd.

7.4.9 Cafwyd problemau gyda charcharorion yn mynd i wrandawiadau yn y llys teulu neu'n mynd i gynadleddau achos y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain, bellach, wedi cael sylw.

7.4.10 Mae cyfrifoldeb am y siop ymweliadau wedi'i drosglwyddo i'r gegin a chaiff ei staffio gan garcharorion.

## 7.5 Cynllunio Ailsefydlu

7.5.1 Ni chafodd dim staff eu rhoi ar ffyrlo ac, felly, parhau wnaeth y gefnogaeth trwy gydol cyfnod clo Covid-19.

7.5.2 Mae staff o'r tîm ailsefydlu'n ymgysylltu â charcharorion yn ystod eu tri diwrnod cyntaf yn y ddalfa.Cytunir ar gynlluniau asesu a datrysir problemau ymarferol e.e. anifeiliaid anwes gartref.

7.5.3 Mae gan y tîm chwe gweithiwr achos gyda phob un, ar gyfartaledd, â llwyth achos o 60 o ddynion. Mae gan bob dyn weithiwr achos wedi'i neilltuo iddo. Unwaith y cynhaliwyd asesiad, mae'r dyn yn aros ar ffeil. Mae modd gweld gweithwyr achos trwy wneud cais ar adeiniau.

7.5.4 Mae cysylltiadau wedi'u datblygu gyda rhanddeiliaid allanol a chysylltiadau wedi'u datblygu gyda'r awdurdod lleol a darparwyr tai cymdeithasol preifat i sicrhau y caiff dynion gymorth gyda thenantiaethau lle bo rhaid.Mae cysylltiadau cryf wedi'u sefydlu gydag Opsiynau Tai ac Argyfwng Ymyrraeth Amser Critigol.Caiff ceisiadau am dai eu prosesu wyth wythnos cyn i garcharorion gael eu rhyddhau. Mae swyddogion prawf yn ymwneud â chynnal asesiadau risg cyn cyfeirio at asiantaethau cymorth tai.

7.5.5 Mae gan y Forward Trust gyflogai ar y safle bedair gwaith yr wythnos.

Caiff rhai dynion eu rhyddhau heb lety i fynd iddo.

7.5.7 Dri mis cyn iddynt gael eu rhyddhau bydd gweithwyr yn cwrdd â charcharorion. Edrychir eto ar y cynllun asesu a thrafodir unrhyw faterion sy'n disgwyl sylw.

7.5.8 Dechreuodd contract Ymddiriedolaeth St Giles ddiwedd 2021. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ni chafwyd cyswllt wyneb yn wyneb tan 2022. Fel rhan o'r llwybr lles, maent yn rhoi cymorth i garcharion sy'n gofyn am gymorth pan gânt eu rhyddhau.

7.5.9 Bythefnos cyn iddynt gael eu rhyddhau, mae carcharorion yn cyfarfod â'r bwrdd cyflogaeth ac ailsefydlu. Mae aelodau o ofal iechyd, dyfodol, Uned Rheoli Troseddau a rheolwr yr hwb cyflogaeth ar y Bwrdd amlasiantaethol, gan weithio i sicrhau y caiff y dynion eu rhyddhau gyda'r gefnogaeth a'r arweiniad cywir fel bod modd iddynt ailsefydlu yn y gymuned gyn gynted â phosibl. Mae'r tîm ailsefydlu wedi bod yn gweithio gyda'r hwb cyflogaeth a'i fwriad yw trefnu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddyled.

7.5.10 Agorodd yr hwb cyflogaeth ar 01/08/222 ac mae gan bob carcharor, sydd â 12-18 wythnos yn unig ar ôl o'i ddedfryd, y cyfle i fynd yno. Mae'r hwb yn gweithredu'n debyg i ganolfan gwaith lle caiff carcharorion drafodaethau un-i-un ar sut y maent yn gweld eu dyfodol. Mae staff yr Adran Gwaith a Phensiynau yno i roi cyngor a chynhyrchir dogfennau hawl i weithio. Mae'r hwb yn cysylltu â Working Wales ac maent yn ymweld â'r carchar ddwywaith yr wythnos.

7.5.11 Rhoddir cyngor ar gymwysterau a chyllid ar gyfer cyrsiau sydd ar gael gan Gyrfaoedd Cymru. Rhoddir hyfforddiant ar y safle am gardyn CSCS (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu) i'r rhai hynny sy'n dymuno gweithio yn y maes adeiladu.

7.5.12 Mae'r hwb wedi datblygu cysylltiadau gyda sawl cwmni yn y maes adeiladu, lletygarwch a glanhau a ddaw i'r carchar fel bod modd meithrin perthynas wedi i'r carcharorion gael eu rhyddhau.

7.5.13 Ysgrifennir CV gyda chymorth a chyngor cynghorydd cwrs gwaith Coleg Gŵyr a wnaiff, hefyd, gynnal sesiynau cyfweliadau ffug.

7.5.14 Ar gyfartaledd, caiff rhwng pump a deg cyfrif banc eu sefydlu pob mis.

7.5.15 Mae'r Boss Project (Wallich) yn rhoi cymorth i ddynion drafod cytundebau tenantiaethau a datgeliadau cadarnhaol bythefnos cyn iddynt gael eu rhyddhau.

# Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Y nifer gyflawn a argymhellir ar gyfer aelodau'r Bwrdd | 12 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 7 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 7 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad* | 353 |

Mae * yn cynnwys ymweliadau "rhithwir" pan fo ymweliadau gwirioneddol wedi'u gwahardd.

**Ceisiadau i'r Bwrdd (yn cynnwys trwy'r llinell ffôn 0800)**

| Cod | Pwnc | Y cyfnod adrodd cyfredol | Y cyfnod adrodd blaenorol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, yn cynnwys golchdy, dillad ac ymolchi | 11 | 4 |
| B | Disgyblaeth, yn cynnwys dyfarniadau, cynllun cymhelliant, sancsiynau | 2 | 0 |
| | Cydraddoldeb | 0 | 0 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, yn cynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell | 7 | 3 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, galwadau ffôn, gwarchod y cyhoedd, cyfyngiadau | 21 | 0 |
| E2 | Cyllid, yn cynnwys tâl, arian preifat, arian i'w wario | 12 | 1 |
| F | Bwyd a cheginau | 0 | 0 |
| G | Iechyd, yn cynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol | 28 | 4 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 11 | 4 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddiad neu mewn cyfleuster arall | 9 | 1 |
| H3 | Ffreutur, rhestr o gyfleusterau, catalogau | 7 | 1 |
| I | Rheoli dedfrydau, yn cynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio | 14 | 2 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, yn cynnwys bwlio | 14 | 9 |
| K | Trosglwyddiadau | 2 | 0 |
| L | Amrywiol | 6 | 1 |
| | Cyfanswm nifer y ceisiadau | 144 | 30 |

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch inationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi gwybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi gael caniatâd deilwyr dan sylw yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn iimb@justice.gov.uk.